Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Llannefydd
# Llannefydd
# Dinbych
# Conwy
# LL16 5EA

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2016

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 22/03/2016**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Llannefydd ym mhentref gwledig Llannefydd, Conwy. Mae’n gwasanaethu'r pentref a’r gymuned amaethyddol gyfagos.

Mae’r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Cymraeg yw iaith bob dydd yr ysgol a phrif gyfrwng y dysgu a’r addysgu. Fe addysgir Saesneg yn ffurfiol yng nghyfnod allweddol 2. Oddeutu 95% o’r disgyblion ddaw o gartrefi ble siaredir Cymraeg. Nid oes yr un disgybl o gefndir ethnig lleiafrifol.

Er nad oes disgyblion yn y dosbarth meithrin ar hyn o bryd, fe’u derbynnir fel arfer yn amser llawn yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Yn ystod yr arolygiad, roedd 50 o blant ar gofrestr yr ysgol. Fe’u haddysgir gan dri athro amser-llawn ac un rhan-amser.

Nid oes yr un disgybl yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Mae 16% o’r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol. Mae’r ffigurau hyn yn is na chanrannau Cymru. Nid oes yr un disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Fe benodwyd y pennaeth mewn gofal ym mis Medi 2015. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Hydref 2009.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Llannefydd yn 2015-2016 yn £4,275. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Conwy yw £9,616 a'r lleiafswm yw £3,227. Mae Ysgol Llannefydd yn y 27ain safle allan o'r 57 ysgol gynradd yng Nghonwy o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

**Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:**

- bron bob un disgybl yn gwneud cynnydd cadarn yn eu gwersi ac yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol
- safonau ymddygiad a hunanddisgyblaeth bron bob un disgybl yn dda a dangosant gwrteisi, gofal a pharch tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr
- bron bob un disgybl yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddysgu
- safon yr addysgu yn gyson dda
- profiadau dysgu diddorol a chyfoethog ar gael i'r holl ddisgyblion
- iddi ethos teuluol, gofalgar a chroesawgar lle mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel a hapus

### Rhagolygon gwella

**Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:**

- gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar hybu safonau uchel
- y weledigaeth wedi ei chyfleu'n llwyddiannus i'r staff, disgyblion, rhieni a'r llywodraethwyr
- aelodau'r staff yn cydweithio'n dda fel tîm
- y corff llywodraethol yn gefnogol iawn i fywyd a gwaith yr ysgol, yn herio'n effeithiol ac yn dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad
- gan yr ysgol weithdrefnau trylwyr a chadarn ar gyfer hunanarfarnu a chynlluniau clir ar gyfer gwella
- cydweithio llwyddiannus iawn yn bodoli gydag ystod o bartneriaid, sy'n cael effaith gadarnhaol ar les a chyflawniad

## Argymhellion

A1 Codi safonau gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 2

A2 Datblygu ymhellach rôl y cyngor ysgol a'r cyngor eco

A3 Defnyddio canfyddiadau asesu yn well i osod targedau heriol i ddisgyblion i sicrhau eu bod yn deall yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae medrau sylfaenol disgyblion ar fynediad i'r ysgol yn amrywio'n naturiol yn unol â'u gallu. Mae bron bob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Maent yn cyfranogi'n llawn yng ngweithgareddau'r dosbarth, ac yn adeiladu'n dda ar eu profiadau dysgu blaenorol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae gan ran fwyaf y disgyblion fedrau siarad a gwrando da ac maent yn dangos lefelau uchel o hyder wrth ddefnyddio'r medrau hyn. Defnyddiant y Gymraeg yn gwbl rhugl wrth drafod eu profiadau a'u diddordebau, gan ddefnyddio geirfa eang. Yng nghyfnod allweddol 2, gall llawer gynnal sgyrsiau estynedig ac ymateb yn bositif i gwestiynau heriol. Mae llawer yn cyfrannu i drafodaethau yn hyderus. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae medrau llafar Saesneg rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n effeithiol hefyd.

Mae safon darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen ac yn y ddwy iaith yng nghyfnod allweddol 2 yn briodol i'w hoed a'u gallu. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn defnyddio ystod o strategaethau darllen i wneud synnwyr da o brint. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn deall yr hyn y maent yn ei ddarllen, gan fynegi barn a thrafod cynnwys llyfrau ar lefel syml. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen ystod eang o destunau gyda rhuglder ac yn ymateb yn ystyrlon i'r cynnwys yn ogystal â thrafod a rhoi barn am lyfrau awduron poblogaidd.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cyson wrth ddatblygu eu medrau ysgrifennu. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu i ystod o bwrpasau gan ddangos dealltwriaeth gadarn o nodweddion ffurfiau, er enghraifft wrth ysgrifennu hanes Betsi Cadwaladr neu lythyr diolch i ffatri leol. Ar y cyfan, mae ansawdd sillafu ac atalnodi llawer o ddisgyblion yn dda. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio eu medrau ysgrifennu yn llwyddiannus ar y lefel briodol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n estynedig mewn ystod eang o ffurfiau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ceir nifer o enghreifftiau o ysgrifennu llythyrau, portreadau, rhestrau ac adroddiadau o safon uchel yn eu gwaith am yr Ail Ryfel Byd. Mae llawer yn treiglo, atalnodi ac yn paragraffu eu gwaith yn addas ac mae safonau llawysgrifen a chyflwyniad llawer o ddisgyblion yn dda.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn adio a thynnu'n gywir gan ddefnyddio degau ac unedau. Maent yn dewis cyfarpar priodol ar gyfer gweithgareddau ac yn creu graffiau clir i gyflwyno'r gwybodaeth a gasglwyd, er enghraifft yn eu gwaith am y tywydd. Maent yn mesur yn gywir gan ddefnyddio unedau safonol mewn gweithgareddau ymarferol o gwmpas y dosbarth. Mae llawer

yn datrys problemau'n hyderus, wrth ddarganfod a yw'r plentyn gyda'r llaw fwyaf yn gallu codi'r nifer mwyaf o flociau. Maent yn cyflwyno eu gwaith yn drefnus ac yn dehongli canlyniadau yn ddeallus. Mae'r disgyblion mwy abl yn ymateb yn dda i dasgau mwy heriol. Enghraifft dda o hyn yw'r gallu i gyfrifo amser wrth ddefnyddio cloc digidol ac analog.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio strategaethau addas i luosi a rhannu rhifau cyfan â 10, 100 a 1000. Maent yn defnyddio dulliau ysgrifenedig o gyfrifiannu, gan gynnwys galw i gof ffeithiau lluosi hyd at 10 x 10. Maent yn casglu data sy'n gysylltiedig â gwybodaeth benodol ac yn cymhwyso eu medrau yn dda mewn nifer o sefyllfaoedd, er enghraifft y gost o deithio ar long y Mimosa i'r Wladfa. Mae'r disgyblion mwy abl yn nodi ac yn dod o hyd i wybodaeth i ddatrys problemau, ac yn gwirio eu canlyniadau yn synhwyrol yng nghyd-destun y broblem.

Mewn rhai blynyddoedd dros y pedair blynedd diwethaf, roedd nifer cymharol fach o ddisgyblion yn y grwpiau blwyddyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. Gall hyn effeithio'n sylweddol ar berfformiad meincnod yr ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, dros gyfnod o bedair blynedd, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwyliedig a'r deilliant uwch o'i gymharu ag ysgolion tebyg wedi gosod yr ysgol yn gyffredinol yn y 25% uchaf mewn medrau iaith. Dros yr un cyfnod, mae perfformiad mewn mathemateg wedi amrywio cryn lawer.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, dros yr un cyfnod, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg, Saesneg a mathemateg wedi bod yn y 25% uchaf gan amlaf. Mewn gwyddoniaeth, ac ymhob pwnc ar y lefel uwch, mae perfformiad wedi amrywio ac nid oes patrwm eglur. Nid oes gwahaniaeth amlwg rhwng perfformiad y bechgyn a merched.

**Lles: Da**

Mae pob un disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn dweud eu bod yn cael eu trin gyda pharch ac yn medru troi at unrhyw oedolyn, ffrindiau neu'r 'Bydis Buarth' am gymorth pan fo angen. Mae gan bron bob disgybl ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd bwyta'n iach a chadw'n heini. Maent yn cymryd rhan frwdfrydig mewn chwaraeon yn ystod gwersi ac mewn clybiau chwaraeon ar ôl ysgol.

Mae safonau ymddygiad a hunanddisgyblaeth yn uchel iawn ac mae pob un disgybl yn foesgar a chwrtais. Maent yn dangos parch a gofal tuag at eu cyfoedion, ac yn gweithio'n hapus a chydwybodol iawn bob amser. Ar draws yr ysgol, mae lefelau diddordeb, brwdfrydedd ac ymroddiad bron bob disgybl yn dda. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau dangos dealltwriaeth dda o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

Mae aelodau'r cyngor ysgol yn frwdfrydig iawn ac yn dangos balchder amlwg yn eu cyfraniad i sawl agwedd o fywyd yr ysgol, fel trefnu gweithgareddau i godi arian i elusennau. Fodd bynnag, nid yw'n ddigon effeithiol wrth gynrychioli safbwynt disgyblion eraill i wneud penderfyniadau i wella'r ysgol. Newydd ei sefydlu mae'r cyngor eco ac nid yw eto wedi dylanwadu ar waith yr ysgol.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn hynod lwyddiannus wrth gymryd rhan mewn mentrau masnachol. Maent yn rhedeg busnesau sy'n cynhyrchu nwyddau ac yn eu gwerthu ar y cyd â busnesau lleol. Mae'r prosiectau hyn yn datblygu medrau bywyd a chymdeithasol y disgyblion yn effeithiol iawn.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfrannu'n sylweddol i'r gymuned ehangach. Maent yn ymfalchïo yn y cyfle i wasanaethu a diddanu trigolion y pentref drwy gymryd rhan mewn gwasanaethau a chyngherddau yn neuadd y pentref.

Mae lefelau presenoldeb yn dda ac wedi bod yn y 25% uchaf dros y tair blynedd ddiwethaf, o'u cymharu ag ysgolion tebyg. Mae bron bob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod o brofiadau dysgu diddorol a chyfoethog sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn dda. Mae cynllunio ar draws yr ysgol ar ddull thema yn fanwl ac yn bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd gan ddarparu cyfleoedd cyson i atgyfnerthu'r medrau hyn a medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn llwyddiannus, er enghraifft drwy greu pamffledi deniadol a diddorol, posteri dealladwy a thaflenni ffeithiol yn amlinellu dogni bwyd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

Cyfoethogir y profiadau dysgu yn dda drwy ymweliadau addysgol a thrwy wahodd ymwelwyr i'r ysgol i siarad â'r disgyblion. Mae hyn yn arbennig o effeithiol fel sbardun ar gychwyn unedau o waith.

Mae gan yr ysgol ethos Cymreig naturiol sy'n cynnig cyfleoedd amrywiol i ddisgyblion ddatblygu agwedd gadarnhaol tuag at yr iaith Gymraeg. Mae'r ysgol yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer astudio hanes lleol a hanes Cymru, er enghraifft, drwy ddysgu am hanes Cymru yn ystod Oes y Tywysogion. Mae'r profiadau hyn yn ganolog i holl waith yr ysgol, yn ehangu dealltwriaeth y disgyblion o'u hetifeddiaeth, ac yn gymorth da iddynt ddeall eu rôl o fewn y gymuned.

Mae darpariaeth effeithiol yn bodoli ar gyfer hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o'r byd ehangach. Mae'r gwaith ar India, Tsieina a'r Aifft yn cyfrannu'n llwyddiannus tuag at wella dealltwriaeth disgyblion o'u rôl fel dinasyddion byd-eang. Mae'r ysgol yn sicrhau bod gan y disgyblion ymwybyddiaeth ddigonol o bwysigrwydd arbed ynni, ailgylchu a lleihau gwastraff. Fodd bynnag, nid yw'r cyngor eco eto'n weithredol.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr athrawon wybodaeth gadarn am ofynion y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Maent yn cynllunio gweithgareddau diddorol a chyffrous sy'n sbarduno'r disgyblion i weithio'n galed mewn grwpiau ac yn annibynnol. Mae'r athrawon yn holi'n dreiddgar er mwyn ehangu dealltwriaeth y disgyblion ac yn eu hannog i ddefnyddio eu medrau meddwl drwy gydol eu gwersi.

Mae pob athro yn defnyddio ystod eang o ddulliau addysgu ac adnoddau yn feddylgar iawn i gynorthwyo’r dysgu. Maent yn rhannu’r amcanion dysgu yn glir ac yn trafod meini prawf llwyddiant gyda’r disgyblion yn gyson yn y gwersi. Mae perthynas waith gadarnhaol yn bodoli rhwng yr oedolion a’r disgyblion ymhob dosbarth.

Mae’r athrawon yn cynnig adborth llafar defnyddiol i’r disgyblion yn ystod gwersi. Maent yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd, sy’n cynnwys cydbwysedd da rhwng sylwadau canmoliaethus a sylwadau adeiladol ar sut i wella’r gwaith. Mae gweithdrefnau da yn eu lle i ddisgyblion arfarnu eu gwaith eu hunain, ond nid ydynt yn cael cyfleoedd rheolaidd i asesu gwaith eu cyfoedion.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau trylwyr ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion, gan gynnwys defnydd buddiol o brofion safonol ac asesiadau athrawon. Mae athrawon yn deall anghenion y disgyblion yn dda, ond nid ydynt bob amser yn defnyddio’r wybodaeth i osod targedau digon heriol ar gyfer unigolion er mwyn iddynt symud ymlaen i’r cam nesaf yn eu dysgu.

Mae trefniadau addas ar gyfer adrodd i rieni am gynnydd a chyflawniad eu plant ac maent yn bodloni’r gofynion statudol yn llawn.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae ansawdd y gofal, y cymorth a’r arweiniad yn effeithio’n gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion. Mae trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, ac er mwyn sicrhau bod disgyblion yn deall sut i fod yn ddiogel. Mae ystod eang o glybiau ar ôl ysgol yn atgyfnerthu hyn. Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae’r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus, drwy ddarparu gwasanaethau cyd-addoli rheolaidd a thrwy weithgareddau’r cwricwlwm fel ystyried stori‘r Iddewon yn yr Ail Ryfel Byd. Mae darpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol o ansawdd uchel ac yn golygu bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o werthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch tuag at eraill. Mae’r profiadau dysgu a’r amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i’r disgyblion fagu medrau cymdeithasol da.

Mae darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol ac yn eu galluogi i wneud cynnydd da. Mae athrawon yn nodi unrhyw anghenion dysgu ychwanegol yn fuan, yn trefnu cymorth yn briodol, ac yn monitro cynnydd disgyblion yn gyson. Mae'r staff yn sicrhau bod cynlluniau addysg unigol yn fanwl ac yn adlewyrchu barn y rhieni pan fyddant yn eu hadolygu.

Mae’r ysgol yn gwneud defnydd priodol o wasanaethau arbenigol sy’n sicrhau cymorth ac arweiniad o ansawdd da i ddisgyblion a rhieni fel bo’r angen.

### Yr amgylchedd dysgu: Da

Nodwedd arbennig o’r ysgol yw’r ethos deuluol sy’n bodoli ynddi. Mae’n ysgol gynhwysol a gofalgar iawn, lle teimla pob disgybl yn hapus a diogel.

Mae gan yr ysgol bolisïau, cynlluniau a gweithdrefnau sy'n sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl ac sy'n hybu cydraddoldeb yn llwyddiannus. Mae parch at wahaniaeth a chydraddoldeb hiliol yn cael ei hyrwyddo yn effeithiol drwy themâu amrywiol, er enghraifft 'Y Byd Rhyfeddol'.

Mae'r adeilad yn diwallu anghenion disgyblion yn dda. Gwneir defnydd llawn o'r holl gyfleusterau, gan gynnwys y neuadd fechan ar gyfer gweithgareddau fel cyd-addoli a chlwb drama. Drwy bartneriaeth gadarn, mae'r ysgol yn gwneud defnydd buddiol o'r neuadd bentref ar gyfer gwersi addysg gorfforol a chyngherddau.

Mae arddangosfeydd deniadol o waith a llwyddiannau'r disgyblion yn y dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol yn creu amgylchedd dysgu diddorol. Mae'r gwaith celf ar awyrennau'r Ail Ryfel Byd yn ennyn balchder y disgyblion yn eu gwaith ac mae'r defnydd o godau technolegol yn dod â'r gwaith yn fyw.

Ceir ystod amrywiol o offer ac adnoddau o ansawdd da yn y dosbarthiadau ac yn yr ardaloedd chwarae allanol a chaiff y rhain eu defnyddio'n effeithiol. Mae staff yn sicrhau bod disgyblion yn defnyddio'r ardal gysgodol y tu allan i ddosbarth y Cyfnod Sylfaen yn rheolaidd ac yn fwriadol.

Mae safon glanweithdra yn uchel ac mae'r adeilad a thir yr ysgol yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda iawn. Mae safle'r ysgol yn ddiogel ar gyfer y disgyblion.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn cynnig arweiniad effeithiol a phwrpasol i'r ysgol gyda gweledigaeth glir a disgwyliadau uchel. Mae'n rhannu'r rhain yn llwyddiannus gyda staff, rhieni, disgyblion a llywodraethwyr. Mae'r ysgol yn gymuned drefnus ac mae strwythurau a pholisïau clir ar waith, sy'n cael eu gweithredu'n gyson ac effeithiol. Mewn cyfnod cymharol fyr, mae'n dechrau effeithio'n gadarnhaol ar ddatblygiad strategol yr ysgol. Mae nifer o weithdrefnau priodol wedi eu rhoi ar waith yn ddiweddar i osod seiliau cadarn ar gyfer lles y disgyblion a chodi safonau. Caiff ei gefnogi'n dda gan holl aelodau'r staff.

Mae cyfarfodydd staff yn digwydd yn rheolaidd ac yn canolbwyntio'n glir ar flaenoriaethau gwella. Mae agendâu yn sicrhau bod y staff yn deall eu cyfrifoldebau a'u rolau wrth gyflawni'r blaenoriaethau hynny.

Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da wrth gyflwyno mentrau sy'n bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae disgwyliadau'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd wedi'u sefydlu'n llwyddiannus ac mae gofynion asesu ar gyfer dysgu yn datblygu'n briodol.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol i waith yr ysgol, yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn cyflawni eu dyletswyddau yn gydwybodol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella. Maent yn gweithredu'n effeithiol fel ffrindiau beirniadol ac yn herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad.

**Gwella ansawdd:  Da**

Mae'r weithdrefn hunanarfarnu yn drylwyr a chadarn ac yn datblygu dealltwriaeth holl aelodau'r staff o gryfderau'r ysgol a'r agweddau sydd angen eu gwella.  Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen fanwl, wedi'i seilio ar ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol sy'n cynnwys dadansoddiad manwl o ddata, arsylwadau dosbarth, a gwrando ar safbwyntiau disgyblion, llywodraethwyr a rhieni.

Mae cyswllt clir yn bodoli rhwng deilliannau'r broses hunanarfarnu â blaenoriaethau'r cynllun gwella'r ysgol.  Mae'r cynllun yn canolbwyntio'n dda ar godi safonau a gwella'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion.  Enghraifft dda o hyn yw'r sylw a roddir i wella medrau darllen Saesneg yng nghyfnod allweddol 2 ac ysgrifennu estynedig ym mlwyddyn 3 a 4.  Mae'r cynllun yn cynnwys ystod briodol o gamau perthnasol ac yn nodi aelodau staff sydd â chyfrifoldeb am eu cyflawni.  Mae hefyd yn cynnwys meini prawf llwyddiant heriol ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion a therfynau amser defnyddiol ar gyfer cwblhau tasgau.  Mae'r ysgol yn monitro cynnydd yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol dystiolaeth dda o roi gwelliannau ar waith.  Er enghraifft, mae'r camau a gymerwyd yn ddiweddar i wella medrau darllen Saesneg  wedi arwain at welliant amlwg yng nghyfnod allweddol 2.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion ac yn ymestyn y profiadau dysgu'n llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol berthynas gref â rhieni ac aelodau o'r gymuned.  Maent yn cefnogi'r ysgol yn ymarferol ac yn ariannol drwy godi symiau sylweddol o arian.  Mae hyn, er enghraifft, wedi arwain at welliant amlwg yn yr offer dringo ar gae'r ysgol.  Mae'r ysgol yn hysbysu rhieni yn dda am weithdrefnau'r ysgol, drwy ddefnyddio negeseuon testun a llythyru rheolaidd.

Mae'r ethos agored a chroesawgar yn llwyddo i ddatblygu partneriaethau cadarn gyda'r gymuned.  Mae'r cysylltiadau da gyda chymdeithasau a busnesau lleol yn cyfoethogi'r profiadau dysgu yn effeithiol, fel rheolwr ffatri leol yn ymweld â'r Cyfnod Sylfaen i siarad am ei waith.  Gwna'r ysgol ddefnydd cyson o gymorth unigolion o'r gymuned i gyfrannu at brofiadau a chefnogi gweithgareddau'r disgyblion.  Er enghraifft, mae chwmnïau lleol yn cyfrannu'n hael i'r ffair nwyddau blynyddol.  Mae'r cydweithio agos gyda busnesau lleol yn hwyluso datblygiad medrau busnes y disgyblion yn llwyddiannus iawn.

Mae system effeithiol o gymedroli wedi ei sefydlu yn y dalgylch gyda phroffiliau pwrpasol a defnyddiol wedi eu datblygu i gynorthwyo athrawon yn eu hasesiadau.  Mae cysylltiadau buddiol gyda chlystyrau o ysgolion cynradd lleol ar ystod o fentrau, gan gynnwys gweithdai llythrennedd a rhifedd i herio disgyblion mwy abl.  Ceir partneriaeth dda gyda'r ysgol uwchradd leol hefyd.  Mae'r trefniadau pontio yn effeithiol i sicrhau trosglwyddo esmwyth.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae digon o staff addysgu a staff cynorthwyol profiadol er mwyn ymdrin â phob agwedd o waith yr ysgol. Mae cyfraniad a chefnogaeth y cymorthyddion dosbarth yn gryfder yn yr ysgol. Maent yn cynnig cynhaliaeth werthfawr i athrawon ac yn dylanwadu'n gadarnhaol ar wella cyrhaeddiad y disgyblion.

Mae amrediad da o adnoddau yn yr ysgol ac yn y gymuned ac maent yn cael eu defnyddio'n dda er mwyn sicrhau mynediad llawn i ddisgyblion at bob agwedd o'r cwricwlwm. Mae hyn yn amlwg iawn yn y defnydd a wneir o'r ardal allanol, y cae chwarae a neuadd y pentref.

Mae prosesau rheoli perfformiad yr ysgol yn arwain yn effeithiol at ddatblygiad staff mewn meysydd priodol sy'n seiliedig ar flaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae'r ysgol yn gweithredu'n effeithiol mewn rhwydweithiau dysgu proffesiynol. Mae staff yn cydweithio'n agos â staff ysgolion eraill i rannu arfer dda, fel datblygu strategaethau i wella safonau iaith y disgyblion mwy abl. Mae'r gweithdai llythrennedd wedi galluogi'r disgyblion hyn i gymryd rhan mewn cystadleuaeth ysgrifennu stori fer.

Mae'r ysgol yn ymateb yn llawn i ofynion statudol baich gwaith athrawon ac mae athrawon yn defnyddio eu hamser digyswllt yn briodol ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu.

Mae gan yr ysgol drefniadau cyllidebol trylwyr, ac mae gwariant yn cysylltu'n dda ag amcanion, targedau a chynlluniau gwella'r ysgol. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro ac yn rheoli gwariant yn ofalus. Maent yn sicrhau bod yr adnoddau ariannol yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi blaenoriaethau ar gyfer gwella. Nid yw'r ysgol yn derbyn grant amddifadedd disgyblion.

O ystyried y safonau a'r ddarpariaeth a gynigir, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6622131 - Ysgol Llannefydd**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 58 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 0.0 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 12 | * | 9 | 12 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 83.3 | * | 100.0 | 91.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | * | 1 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | * | 9 | 12 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 83.3 | * | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | * | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 66.7 | * | 55.6 | 16.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | * | 1 | 4 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | * | 9 | 12 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 91.7 | * | 100.0 | 91.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | * | 1 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 66.7 | * | 44.4 | 16.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | * | 2 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | * | 9 | 12 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | * | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | * | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 75.0 | * | 100.0 | 41.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | * | 1 | 4 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6622131 - Ysgol Llannefydd**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 58 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 0.0 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 14 | 13 | 10 | 9 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 92.9 | 92.3 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 1 | 1 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 14 | 13 | 10 | 9 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 85.7 | 92.3 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | 46.2 | * | * |
| Chwartel meincnod | * | 2 | * | * |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 14 | 13 | 10 | 9 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 92.9 | 92.3 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | 46.2 | * | * |
| Chwartel meincnod | * | 2 | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 14 | 13 | 10 | 9 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 92.9 | 92.3 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 50.0 | 46.2 | 60.0 | 66.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 1 | 1 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 14 | 13 | 10 | 9 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 92.9 | 92.3 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | 46.2 | * | * |
| Chwartel meincnod | * | 3 | * | * |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 40 | 40<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 40 | 40<br>100%<br>92% | 0<br>0%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 40 | 40<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 40 | 40<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 40 | 39<br>98%<br>96% | 1<br>2%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 40 | 36<br>90%<br>96% | 4<br>10%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 39 | 39<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 40 | 40<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 40 | 36<br>90%<br>91% | 4<br>10%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 40 | 40<br>100%<br>95% | 0<br>0%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 40 | 38<br>95%<br>77% | 2<br>5%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 40 | 32<br>80%<br>84% | 8<br>20%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i’r holiadur i rieni

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 16 | 14 | 2 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 88% | 12% | 0% | 0% | | |
| | | 64% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 16 | 15 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 94% | 6% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 16 | 15 | 1 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 94% | 6% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 16 | 12 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 75% | 25% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 16 | 9 | 7 | 0 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 56% | 44% | 0% | 0% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 16 | 11 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 69% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 16 | 13 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| | | 65% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 16 | 5 | 11 | 0 | 0 | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 31% | 69% | 0% | 0% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 16 | 11 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 69% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 16 | 12 | 4 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 75% | 25% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 16 | 15 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 94% | 6% | 0% | 0% | | |
| | | 67% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 14 | 7 | 7 | 0 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 50% | 50% | 0% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 16 | 8 | 8 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 50% | 50% | 0% | 0% | | |
| | | 50% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 16 | 13<br>81% | 3<br>19% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 63% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 15 | 11<br>73% | 4<br>27% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 16 | 13<br>81% | 3<br>19% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 13 | 10<br>77% | 3<br>23% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 16 | 6<br>38% | 10<br>62% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 55% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 16 | 8<br>50% | 8<br>50% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Mervyn Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Glyn Griffiths | Arolygydd Tîm |
| David Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Bethan Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Gari Evans | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy’r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â’r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i’r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae’r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â’r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i’r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni’r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o’r 25% uchaf i’r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae’n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.